O2 NSPCC
Let's keep kids safe online

# Gwers 2 Pwyllo cyn Rhannu – Lucy

| | |
|---|---|
| **Dosbarth** | **Cyfnod Allweddol 2** |
| **Amser** | **40 munud** |
| **Dyddiad** | **Hydref 2015** |
| **Amcanion Dysgu** | **Rydym yn dysgu am ddiogelwch ar-lein, a sut mae cael help yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol** |
| **Deilliannau Dysgu** | **Ar ôl gorffen y wers yma, bydd y disgyblion yn deall peryglon tynnu lluniau personol a'u rhannu nhw ar-lein** |
| **Geirfa Allweddol** | **Cyfrineiriau, cyfryngau cymdeithasol, Facebook, diogelwch ar-lein, arwyddion o berygl** |
| **Adnoddau** | **Cysylltiad â'r rhyngrwyd, Bwrdd Gwyn rhyngweithiol (dewisol) a'r fideo 'Gwelais i dy 'willy' di' gan yr ymgyrch Pwyllo cyn Rhannu** |

PSHE Association Quality Assured Resource



Dyma'r ail o'r ddau gynllun gwers sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch ar-lein. Mae'n cyfeirio at Raglen Astudio'r Gymdeithas PSHE ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, gan ganolbwyntio ar Thema Graidd 1: Iechyd a Lles: Cynyddu dealltwriaeth y disgyblion o risg drwy adnabod, rhagweld ac asesu risgiau mewn gwahanol sefyllfaoedd, a phenderfynu sut mae delio â nhw'n gyfrifol.

**Cyn i chi ddechrau**

*Cyn i chi ddechrau: Cyn y wers, gofynnwch i'r disgyblion feddwl am rywfaint o reolau sylfaenol ar gyfer y sesiwn – er enghraifft, dim ond un person yn siarad ar y tro, neu beidio â gofyn cwestiynau personol. Dylid ysgrifennu'r rhain ar y bwrdd, a dyma fydd contract y dosbarth ar gyfer y wers. Hefyd, dywedwch wrth y disgyblion fod gennych chi amlen neu focs yn yr ystafell ddosbarth er mwyn iddyn nhw allu cyflwyno unrhyw gwestiynau yn ystod y wers neu ar ôl iddi orffen.*

## Cynnwys y Wers

5 MUNUD

Mae'r athro'n cyflwyno pwnc y wers 'Pwyllo cyn Rhannu'. Dechreuwch gydag **asesiad sylfaenol** er mwyn gwybod beth mae'r disgyblion yn ei wybod am yr elfen yma o ddiogelwch ar-lein. Gofynnwch iddyn nhw weithio gyda phartner i wneud rhestr fer o'r peryglon wrth siarad â rhywun dieithr ar-lein.

3 MUNUD

Oni bai eich bod wedi gwneud hyn yn ddiweddar gyda *Chynllun Gwers 1 – Alex*, gofynnwch i'r dosbarth:

- ***Pwy sy'n dda am rannu?*** (rhowch gyfle iddyn nhw ymateb, gan gytuno bod rhannu yn rhywbeth gwych i'w wneud)

- ***Pa fath o bethau rydych chi'n eu rhannu?*** (rhowch gyfle iddyn nhw ymateb) ***Ddylen ni rannu pob dim?***

- Trafodwch **y pethau ddylen ni ddim eu rhannu.** Gallai'r rhain gynnwys: cyfrineiriau, pethau preifat, gwybodaeth bersonol, ein cyrff, straeon cas am bobl eraill ac ati.

3 MUNUD

Gofynnwch i'r dosbarth:

- ***Mae'n hawdd iawn rhannu pethau ar-lein. Pa fath o bethau mae pobl yn gallu eu rhannu ar-lein?*** Efallai y bydd yr athro am roi enghraifft o rywbeth mae wedi'i rannu ar-lein, fel llun o'r dosbarth ar wefan yr ysgol, neu roi gwybodaeth ar Twitter neu Facebook am gêm chwaraeon neu gyfarfod diweddar.

Trafodwch â'r dosbarth:

- ***Mae'n gallu bod yn ddefnyddiol iawn rhannu gwybodaeth ar-lein, ond mae'n gallu bod yn beryglus weithiau. Ydych chi'n gallu meddwl am rywbeth y byddai'n gallu bod yn beryglus ei rannu ar-lein?***

3 MUNUD

Gofynnwch i'r dosbarth:

- ***Pa wefannau rydych chi'n gwybod amdanyn nhw, a pha rai fyddech chi eisiau eu defnyddio?***

Trafodwch â'r dosbarth:

***Beth fyddem yn gallu ei wneud i sicrhau bod safleoedd yn llefydd mwy diogel i blant?*** (Meddyliwch am y llefydd lle mae plant yn gallu chwarae'n ddiogel, e.e. iard yr ysgol. Pam fod hwn yn lle diogel? Sut allwn ni wneud yn siŵr bod plant yr un mor ddiogel wrth chwarae ar-lein ag ydyn nhw ar iard yr ysgol?)

Eglurwch ein bod yn mynd i wylio clip sy'n dangos enghraifft o hyn.

4 MUNUD

***Mae'r clip yma rydym yn mynd i'w wylio heddiw yn dangos y peryglon roedd un ferch yn eu hwynebu ar ôl rhannu llun ar-lein â rhywun doedd hi ddim yn ei adnabod.***

***Dyma stori am ferch o'r enw Lucy. Dydych chi ddim yn adnabod Lucy. Dydy Lucy ddim yn mynd i'ch ysgol chi, a dim Lucy ydy ei henw hi go iawn. Ond mae ei stori WEDI digwydd go iawn, ac rydym yn gwybod bod hyn wedi digwydd i rai plant.***



*Gwyliwch: 'Lucy a'r Bachgen' gan ymgyrch Pwyllo cyn Rhannu yr NSPCC. (o'r cyflwyniad neu'r ddolen)*

***Rydym yn mynd i wylio'r clip unwaith eto nawr, ond y tro yma rydw i eisiau i chi godi'ch llaw bob tro y byddwch chi'n gweld arwydd o berygl. Felly codwch eich llaw, ac wedyn ei thynnu i lawr yn syth. Ac os byddwch chi'n gweld arwydd arall o berygl, codwch eich llaw eto i mi gael gweld.***

3 MUNUD

- ***Beth ddigwyddodd yn y ffilm?***
- ***Beth oedd yr arwyddion bod rhywbeth annifyr yn mynd i ddigwydd?***
  Doedd Lucy ddim yn gweld unrhyw beth o'i le ar rannu llun ohoni hi ac Oscar ar-lein.
  Doedd Lucy ddim yn sylweddoli bod pobl dydy hi ddim yn eu hadnabod yn gallu gweld ei llun.

Rhowch gyfle i'r disgyblion drafod mewn parau/grwpiau cyn arwain trafodaeth fel dosbarth ynghylch y cwestiynau ar sleid 3:

5 MUNUD

- ***Beth fyddai Lucy wedi gallu ei wneud ar ôl cael y neges gyntaf?***
  Fe ddylai hi fod wedi **dweud** wrth rywun diogel, rhywun mae hi'n ymddiried ynddo
- ***Pa oedolion fyddai hi'n gallu ymddiried ynddyn nhw?***
- ***Roedd y dyn wedi dweud celwydd am ei oed, ond pa gelwydd arall fyddai pobl ar-lein yn gallu ei ddweud?***

Rhowch gyfle i'r disgyblion drafod mewn parau/grwpiau cyn arwain trafodaeth fel dosbarth ynghylch y cwestiynau ar sleid 4:

3 MUNUD

- ***Mae'r clip yma hefyd yn achosi pryder oherwydd bod 'y bachgen' eisiau gweld dillad isaf Lucy. Pam mae hynny'n achosi pryder? Pam dydy hynny ddim yn iawn?***
- ***Beth ddylai Lucy ei wneud pan mae hi'n mynd i'r car at Mam?***
- ***Beth ydych chi'n meddwl fyddai Mam yn ei ddweud wrth Lucy?***

2 FUNUD

Yn anffodus, mae rhai pobl yn y byd eisiau brifo pobl eraill, ac mae'n rhaid i ni gofio hynny bob amser. Dyna pam rydym yn eich dysgu chi sut mae bod yn ddiogel ar-lein. Mae pobl yn gallu ein brifo ni mewn bywyd go iawn, ond maen nhw'n gallu ein cyrraedd yn hawdd ar-lein hefyd. Mae pobl yn esgus bod yn rhywun arall weithiau. Byddwch yn ofalus gyda'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu ar-lein. Peidiwch â rhannu llun ohonoch chi yn eich gwisg ysgol er enghraifft, na llun o le rydych chi'n byw. Pan fyddwch chi'n siarad â'ch ffrindiau ar-lein, mae pobl eraill yn gallu cael gwybod ble byddwch chi'n cwrdd â'ch ffrindiau a phryd byddwch chi ar eich pen eich hun. Os bydd rhywun eisiau eich brifo, mae hyn yn ffordd arall iddyn nhw ddod o hyd i fanylion personol am eich bywyd.

## Gweithgaredd Craidd

6 MUNUD

***Gadewch i ni wneud rhywbeth i atgoffa ein hunain sut mae cadw'n ddiogel ar-lein – Beth ddylem ei wneud wrth gael neges gan rywun dieithr?***

Defnyddiwch yr ymadrodd yma:
***Dweud wrth rywun...ond peidio dileu, ateb na chwrdd.***

Gall disgyblion wneud strip cartŵn sy'n eu hatgoffa i ddefnyddio'r frawddeg.

Dweud wrth rywun...
ond peidio dileu,
ateb na chwrdd

# Sesiwn gyda phawb

5 MUNUD

I orffen y wers, cofiwch atgoffa'r disgyblion am yr amlen neu'r blwch cwestiynau. Dywedwch pryd byddwch chi'n trafod atebion eu cwestiynau.

Edrychwch ar y gweithgaredd sylfaenol eto.

✳ ***Pa gyngor allwch chi ei ychwanegu at y rhestr ar gyfer delio â'r peryglon wrth siarad â rhywun dieithr ar-lein?***
Defnyddiwch feiro/pensil mewn lliw gwahanol i wneud hyn.

Yna gofynnwch i'r disgyblion feddwl am un peth maen nhw'n mynd i'w wneud neu ei newid oherwydd y wers. Atgoffwch y disgyblion eu bod yn gallu ffonio Childline bob amser i gael sgwrs – 0800 1111 – neu gysylltu â Childline ar-lein os byddan nhw angen siarad â rhywun am rywbeth sy'n eu poeni, ac yn teimlo eu bod yn methu siarad ag oedolyn maen nhw'n ymddiried ynddo.

# Gwaith ymestyn

Mae angen i chi gynllunio a threfnu ymgyrch fach i ddweud wrth bob disgybl yn yr ysgol sut mae bod yn ddiogel wrth chwarae ar-lein, a beth allant ei wneud/ble i fynd os oes ganddynt ofn neu os ydynt yn poeni am rywbeth.

# Gwaith cartref

Mae angen i chi drafod beth rydych wedi'i ddysgu gyda'ch teulu heno. Gallwch ddangos y wybodaeth rydych wedi'i chael ac, os oes gennych chi gysylltiad â'r rhyngrwyd, gallwch ddangos y clip fideo: 'Lucy a'r Bachgen'. Bydd angen i chi lenwi taflen y Gweithgaredd Pum Peth.

**Adnoddau: Taflenni Pwyllo cyn Rhannu. Gweithgaredd 5 Peth (amlinell o law y byddai plentyn yn gallu torri o'i hamgylch – gallwch ei lwytho i lawr neu ei argraffu. Ar un ochr, mae angen ysgrifennu 5 peth y mae'n iawn eu rhannu ar-lein, a 5 peth nad ydy hi'n iawn eu rhannu ar-lein ar yr ochr arall).**

# Gwybodaeth i Rieni / Gofalwyr

Llyfryn Pwyllo cyn Rhannu i'w ddarllen gartref/cyfeirio at wybodaeth ar-lein: Gwefan yr NSPCC http://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/keepingchildren-safe/share-aware/

**Adnoddau: Taflenni Pwyllo cyn Rhannu**